Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 29 Hydref 2014



Bendithia'r cof amdanynt heddiw,
Gwag yw'r aelwyd yma o hyd,
Taena d'adain, dirion Iesu,
Ar eu llwch ym mhellter byd.

*Y gofeb yn Langemark, gwlad Belg, er cof am y Cymry a gymerodd ran yn y Rhyfel Mawr*
*llun: Iolo ap Gwynn*

*Annwyl ffrindiau,*

Gan mlynedd yn ôl, ar 28 Mehefin 1914, yn Sarajevo, llofruddiwyd Franz Ferdinand, arch-ddug ymerodraeth Awstria-Hwngari. Serbiad ifanc o'r enw Gavrilo Princip saethodd y gwn, gan ddechrau cadwyn o ddigwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth 10 miliwn o filwyr ar faes y gad, 40,000 o Gymry yn eu plith. Roedd Tom Morris, fy hen ewythr, yn un ohonynt.

Yng nghalonnau a meddyliau pawb ohonom y mae'r Rhyfel Mawr, a phob rhyfel arall, yn beth cwbl erchyll. Rhyfel yn ddiau yw'r symbol amlycaf o gasineb a diffyg cymod rhwng dyn a dyn. Ble arall y gwelir tystiolaeth mor frawychus o'r modd y cafodd dyn ei wahanu oddi wrth Dduw? Os am atgoffa ein hunain o hynny, ni raid i ni ond cerdded ar hyd y rhesi hirion o gerrig beddi gwynion ym mynwentydd milwrol Fflandrys, neu ymweld â'r siambrau nwy yng ngwersyll milwrol Auschwitz. Mae rhyfel bob amser yn dwyn atgofion trist a dirdynnol fel y mae Bardd y Gadair Ddu, Hedd Wyn, yn ein hatgoffa yn ei gerdd 'Rhyfel' sy'n crynhoi ofnadwyaeth ac arswyd y brwydro yn y ffosydd.

Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng,
A Duw ar drai ar orwel pell;
O'i ôl mae dyn, yn deyrn a gwreng,
Yn codi ei awdurdod hell.

Pan deimlodd fyned ymaith Dduw
Cyfododd gledd i ladd ei frawd;
Mae sŵn yr ymladd ar ein clyw,
A'i gysgod ar fythynnod tlawd.

Mae'r hen delynau genid gynt,
Ynghrog ar gangau'r helyg draw,
A gwaedd y bechgyn lond y gwynt,
A'u gwaed yn gymysg efo'r glaw.

Ganrifoedd yn ôl, tua'r chweched ganrif cyn geni Crist, cyhoeddodd y proffwyd Eseia, "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed y negesydd sy'n cyhoeddi heddwch ac yn datgan daioni, yn cyhoeddi iachawdwriaeth" (Eseia 52:7).

Yng nghanol y digwyddiadau i gofio canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Mawr eleni, onid 'cyhoeddi heddwch' a gweithio am heddwch ar bob lefel o berthynas dynol yw'r alwad i ddilynwyr Iesu yn ogystal? 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw'. (Mathew 5:9)

Mae tangnefedd bob amser yn cyfleu bywyd o gyflawnder a helaethrwydd a rhaid ei gyfryngu i eraill ac i'r byd o'n hamgylch. Cofiwn weddi fawr Sant Ffransis o Assisi: 'Arglwydd, gwna fi'n gyfrwng dy dangnefedd, i hau cariad lle bo casineb, i faddau lle bo cam, i uno lle bo ysgar, i blannu ffydd lle bo amheuaeth, a gobaith lle bo digalondid; i hau goleuni lle bo tywyllwch, a llawenydd lle bo tristwch.' Dyletswydd a chyfrifoldeb pob Cristion yw gweithredu *shalôm* a cheisio cymod rhwng dyn a'i gyd-ddyn, boed unigolyn, teulu, gwlad a byd. 'Cennad dyn yw bod yn frawd' – dyna, yn ôl Waldo, yw moeseg y bywyd Cristnogol. Ac meddai James Nicholas mewn cerdd o'i eiddo: 'Ein creadigaeth ni yw'r gelyn, brawdoliaeth yw gwraidd ein bod.'

> Cenedl dda a chenedl ddrwg –
> Dysgent hwy mai rhith yw hyn,
> Ond goleuni Crist a ddwg
> Ryddid i bod dyn a'i myn.
> Gwyn eu byd, daw dydd a'u clyw,
> Dangnefeddwyr, plant i Dduw.

*Waldo Williams* ('Y Tangnefeddwyr')

Yr eiddoch yng Nghrist,
*Wyn Morris*

**Gweddi – 'Ymroi i greu heddwch'**

Dyro ddewrder i ni, O Arglwydd, i sefyll i gael ein cyfrif,
i sefyll dros y rhai na fedrant sefyll drostynt eu hunain,
i sefyll dros ein hunain pan fo angen gwneud hynny.
Na foed inni ofni dim yn fwy na thi.
Na foed inni garu dim yn fwy na thi,
oherwydd wedyn nid ofnwn ddim byd.
Na foed i ni gael unrhyw Dduw arall ond tydi,
boed hwnnw'n genedl neu blaid neu wladwriaeth neu eglwys.
Na foed inni chwilio am heddwch
ond yr heddwch sy'n perthyn i ti,
a gwna ni'n offerynnau iddo,
gan agor ein llygaid a'n clustiau a'n calonnau,
i fod yn ymwybodol o'r gwaith heddychlon
y gallwnei wneud er dy fwyn di.

*Alan Paton* (1903–88),
sefydlydd a chyn-gadeirydd Plaid Ryddfrydol De Affrica

# Tudalen y Plant

**Darllenwch stori'r ffermwr yn hau'r had (Marc 4:1–20)**
**ac yna rhowch gylch am y gair cywir bob tro:**



Rhoi hadau yn y ddaear er mwyn i blanhigion dyfu
(a) caregog (b) ffermwr (c) llwybr (ch) hau

Rhywbeth bach, caled sy'n gallu tyfu'n blanhigyn newydd
(a) pridd (b) carreg (c) hedyn (ch) gwreiddiau



Ffordd i bobl gerdded arni
(a) llwybr (b) hau (c) caregog (ch) pridd

Creaduriaid sydd â phig a chynffon ac sy'n gallu hedfan
(a) ffermwyr (b) moch (c) adar (ch) athrawon



Planhigion sydd â phigau miniog
(a) gwreiddiau (b) drain (c) dail (ch) caregog

Rhan uchaf y ddaear – mae'r ffermwr yn ei aredig
(a) pridd (b) caregog (c) hau (ch) llwybr



Y darn o blanhigyn sy'n tyfu yn y ddaear
(a) pridd (b) caregog (c) gwreiddiau (ch) deilen

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog,
drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul
os dymunwch, erbyn **30 Medi**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb
cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i**
**Llŷr Evans,**
**Ysgol Sul Pen-llwyn,**
**enillydd tasg,**
**y rhifyn diwethaf.**

*Manylion Cyswllt y Gweinidog:*
*Y Parch Wyn Morris,*
*Berwynfa, Penrhyn-coch,*
*Aberystwyth, SY23 3EW*
*01970 820939*
*berwynfa@btinternet.com*

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*


| | |
|---|---|
| 4 Hydref | Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd yr Henaduriaeth<br>Capel Llan-non am 2.30 o'r gloch<br>'Fy ymweliad ag Uganda yn ystod haf 2014'<br>gan Zoe Glynne Jones |
| 6 Hydref | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>yn Festri'r Garn am 7 o'r gloch,<br>a Phwyllgor y Tair Gofalaeth am 7.30 o'r gloch |
| 12 Hydref | Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ofalaeth<br>yng Nghapel Noddfa, Bow Street, am 10 o'r gloch |
| 3–22 Tachwedd | Arddangosfa a chyflwyniad<br>Prosiect Cofio a Myfyrio: Y Rhyfel Byd Cyntaf |
| 21 Rhagfyr | Gwasanaeth Nadolig yr Ofalaeth<br>yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch |
| 25 Rhagfyr | Oedfa gymun deuluol ar fore'r Nadolig<br>dan arweiniad y Gweinidog am 9 o'r gloch |
| 31 Rhagfyr | Gwylnos yng Nghapel y Garn am 11.30 pm<br>dan arweiniad y Gweinidog |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## *Taith i Uganda*

Wedi'r holl gynllunio, mae ein taith i Kampala, Uganda, wedi dod ac wedi mynd heibio mewn dim o dro. Bu'n daith fythgofiadwy a phe bai modd imi wneud hynny, byddwn yn hedfan yno eto yfory nesaf. Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb a wnaeth gefnogi a chyfrannu tuag at fy nhrip i Uganda. Heb eich help, ni fuaswn i wedi cael y cyfle bythgofiadwy yma.



Pwrpas ein taith oedd ymweld â sefydliad o'r enw COBAP (prosiect Aids cymunedol). Mae COPBAP yn anelu i weddnewid cymunedau trwy ddatblygu gallu pobl i fynd i'r afael â'u problemau cymdeithasol megis iechyd, tlodi, troseddu, a gwrthdaro cymdeithasol yn gyffredinol. Mae pawb sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda COPBAP yn dod o'r slymiau ac wedi bod trwy eu rhaglenni, wedi cael trefn ar eu bywydau a bellach yn helpu eraill yn yr un modd.

Cawsom amser anhygoel. Roedd ymweld â gwahanol brosiectau COBAP yn wych, ac yn dangos sut roedd modd iddynt ymateb i anghenion pobl gyda chymorth Duw, er gwaetha'r holl dlodi a'r holl niferoedd oedd angen cymorth ganddynt.

Yn y pythefnos a dreuliwyd yno, roedd yn wych gweld sut roedd pobl gyda chymorth COPBAP yn gallu gweld bod modd defnyddio'r hyn oedd ganddynt i wneud newidiadau bychain yn eu bywydau.

Roedd pawb mor gadarnhaol ac yn ymddiried y byddai Duw yn darparu ar eu cyfer, gan wneud imi sylweddoli y dylem fod yn wirioneddol ddiolchgar am yr hyn sydd gennym.



*CIC – y Garn*

| Dyddiad | Gweithgaredd | Lleoliad |
|---|---|---|
| 2 Hydref | Canolfan Weithgareddau'r Llain | Cwrdd ym maes parcio'r Garn am 16.00 |
| 16 Hydref | 'Taith i Uganda' – Zoe Glynne Jones | Festri'r Garn, 19.00 |
| 7 Tachwedd | Noson dwrnameint | Festri'r Garn, 19.00 |
| 20 Tachwedd | Noson goginio | Festri'r Garn, 19.00 |
| 4 Rhagfyr | Carol a cherdyn | Festri'r Garn, 19.00 |
| 22 Rhagfyr | Canu Carolau | Manylion i ddilyn |

Croeso i bawb o Flwyddyn 6 i fyny

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Zoe, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid: 01970 611510 neu zoejones34@gmail.com.

## *Pen-llwyn*

Ar brynhawn braf o haf, 21 Mehefin, teithiodd aelodau o Ben-llwyn i Langeitho, ardal a chapel Daniel Rowlands, lle sefydlwyd achos Methodistaidd am y tro cyntaf tua'r flwyddyn 1763. Braint oedd cael ymweld â'r ardal gyfoethog, hanesyddol hon, a chofio am sêl yr arweinwyr cynnar dros ledaenu'r efengyl yng nghyfnod y Diwygiad Methodistaidd.

Ein pwrpas ni oedd mynychu cyfarfod ordeinio Mis Delyth Davies yn flaenores ym Mhen-llwyn – un o bum blaenor newydd i gael eu hordeinio mewn cyfarfod arbennig.

Yr Athro J. Gwynfor Jones, Caerdydd, Llywydd Cymdeithasfa'r De, oedd yng ngofal yr ordeinio a phwysleisiodd fod hwn yn ddechrau newydd i'r arweinwyr yn eu heglwysi weithredu cenadwri yr Arglwydd Iesu Grist a chynnal perthynas â'r aelodau o fewn yr eglwysi oedd wedi eu hethol. Mor bwysig hefyd, meddai, yw ymestyn neges yr Efengyl drwy weddi a myfyrdod mewn gostyngeiddrwydd, a'r adnod a danlinellwyd ganddo oedd: 'Bugeiliwch braidd Duw sydd yn eich gofal'. Dyna'r gorchymyn a gafodd y disgyblion cyntaf a dyna yw'r gorchymyn i ni bob un drwy nerth a chymorth ein Harglwydd Iesu Grist. Pan esgeulusir Tŷ yr Arglwydd, try ein cymdeithas yn anwar a materol, ond cofiwn mai ein braint ni fel aelodau o'i eglwys yw bod 'yn gadarn a diysgog gan wybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer'.

Diwrnod bendithiol iawn oedd hwn nid yn unig i'r blaenoriaid newydd ond i bob un oedd yn bresennol – cyfle i gymryd stoc ohonom ein hunain a cheisio dweud gyda Charles Wesley:

Fe'm galwyd gan fy Nuw
i wasanaethu f'oes;
boed im ymroi i'r gwaith a byw
i'r gŵr fu ar y groes.

Dymunwn, fel eglwys, bob rhwyddineb a bendith i Delyth wrth iddi ymgymryd â'i dyletswyddau newydd – er nad ydynt yn ddieithr iddi gan iddi fod yn weithgar a ffyddlon iawn ar hyd y blynyddoedd, ac edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio â hi.

*Ordeinio blaenoriaid yn Llangeitho, Mehefin 2014*



*Bedyddio efeilliaid yn y Garn*



Efan Hedd ac Elis Gwern, meibion Meleri a Matthew Flint ac wyrion Wynne Melville a Linda Jones, yn dilyn eu bedydd yng Nghapel y Garn fore Sul, 20 Gorffennaf. Gweinyddwyd y sacrament gan y Gweinidog.

## *Emyn i rai a gollwyd mewn rhyfel*

Arglwydd Iesu, clyw ein gweddi
    Wrth gysegru ein coffâd
Am anwyliaid na ddychwelodd
    O gyflafan maes y gad.

Plant diniwed oeddynt, Arglwydd,
    Gyda'r utgyrn ar eu clyw
Yn cyhoeddi rhyfel cyfiawn
    Er mwyn achub dynol ryw.

Bendithia'r cof amdanynt heddiw,
    Gwag yw'r aelwyd yma o hyd,
Taena d'adain, dirion Iesu,
    Ar eu llwch ym mhellter byd.

Maddau, Arglwydd, maddau'r gwastraff
    Beunydd ddaw o golli gwaed
Yng nghynhaeaf trist yr arfau,
    Glŷn euogrwydd wrth ein traed.

Arglwydd Iesu, cadw'u hysbryd
    Heddiw'n dawel gyda thi,
Fel bod archoll dwfn eu colli
    Yn esmwytho'n heddwch ni.

*Vernon Jones*

# Y RHYFEL BYD CYNTAF
# YN ARDAL GOGLEDD CEREDIGION

## PROSIECT COFIO a MYFYRIO

Arddangosfa o ddeunyddiau a gasglwyd yn lleol

Agoriad Swyddogol
Neuadd Rhydypennau,
nos Lun, 3 Tachwedd am 7 o'r gloch

| | |
|---|---|
| 4–5 Tachwedd | Neuadd Rhydypennau |
| 10–11 Tachwedd | Neuadd Goffa Tal-y-bont |
| 13–14 Tachwedd | Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor |
| 17–19 Tachwedd | Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch |
| 21–22 Tachwedd | Neuadd y Paith, Capel Seion |

Bydd yr arddangosfa ar agor 2–8 p.m.
ac eithrio 14 a 22 Tachwedd, pan fydd yn cau am 5 p.m.

Cyflwyniad dramatig
dan ofal Euros Lewis
gydag actorion lleol

| | |
|---|---|
| Act 1: nos Iau, 6 Tachwedd | Capel y Garn, Bow Street |
| Act 2: nos Fercher, 12 Tachwedd | Capel Bethel, Tal-y-bont |
| Act 1: nos Wener, 14 Tachwedd | Capel Pen-llwyn, Capel Bangor |
| Act 2: nos Iau, 20 Tachwedd | Capel Horeb, Penrhyn-coch |

Bydd y perfformiadau'n dechrau am 7.30 p.m.

Croeso cynnes i bawb

Manylion pellach gan John Leeding: 01970 832672

## *Grŵp Help Llaw*



Mae'r Grŵp Help Llaw yn dal i gyfarfod bob prynhawn Mercher (ac eithrio'r un cyntaf yn y mis) a hynny am 2.30 p.m. yn Festri Capel y Garn.

Rydym yn dal i dderbyn stampiau er budd Oxfam a hen sbectolau ar gyfer Vision Aid Overseas. Mae gennym stondin lyfrau ail-law a'r cyfraniadau (diolch amdanyn nhw) yn mynd at yr elusen Water Aid.

Am yr wythnosau nesaf, rydym am ymateb i'r apêl Hand in Hand for Syria, sy'n gofyn am ddillad newydd wedi eu gwau neu eu crosio.

Rydyn ni am ganolbwyntio ar ddillad i fabanod, o'r newydd-anedig i rai hŷn, gan gynnwys blancedi. Mae'r gaeafau yn Syria yn rhewllyd a phlant y ffoaduriaid yn debygol o ddioddef yn enbyd yn yr oerni.



Rydym yn apelio am gefnogaeth aelodau'r Ofalaeth i gyd, fel y gallwn fod yn rhan o'r Big Air Drop fydd yn digwydd o fis Hydref ymlaen.

Trowch i mewn am baned a sgwrs neu cysylltwch â Shân (828268) neu Bethan (611502). Diolch.

---

**Newid Cyfeiriad**

Cyfeiriad newydd (dros dro) y Parch R W a Mrs Rhian Jones yw:

6 Acton Hall Walks
Acton
Wrecsam
LL12 7YJ

07565513359 (Rhian)
07596232759 (Bob)

## Hydref

*Blaenor y Mis: Eddie T Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan Morgan / Marian B Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

1 Gwasanaeth Diolchgarwch y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
dan arweiniad y Barch Judith Morris

**5** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa

Oedfa'r hwyr yn y Garn – dan arweiniad y Parch John Roberts

**12** Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth
yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Ceredigion a'r Rhyfel Mawr' – Gwyn Jenkins

**19** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

**26** Parch John Gwilym Jones

*A phan ddaw'r hydref yn ei rwysg*
*a'i law yn euro dail y coed*
*cawn brofi cyfoeth cnwd y maes*
*eleni eto fel erioed.*

Rebecca Powell

Llongyfarchiadau calonnog i:

Lleucu Roberts ar ennill Gwobr Goffa Daniel Owen am ei nofel *Rhwng Edafedd* a'r Fedal Ryddiaith am ei chyfrol *Saith Oes Efa* yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr. Bydd cyfle i ddathlu camp unigryw Lleucu pan fydd yn dychwelyd i fro ei mebyd nos Wener, 3 Hydref, i noson arbennig a gynhelir yn ysgoldy Bethlehem, Llandre, am 6 o'r gloch, gyda Stomp, dan ofal Arwel Pod Roberts, yn dilyn yn Llety Ceiro am 8 o'r gloch;

Alun Jones (Gwyddfor gynt), ar dderbyn Medal Goffa T. H. Parry-Williams yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr;

Vernon Jones ar ennill nifer o wobrau llenyddol dros yr haf, gan gynnwys y wobr gyntaf am gerdd gaeth ar y testun 'Rhwyg' yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr;

Osian Penri ar ennill gradd Baglor mewn Meddygaeth a Llawfedddygaeth, a phob dymuniad da iddo yn ei swydd yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd;

ieuenctid yr eglwys ar eu llwyddiant yn yr arholiadau eleni a phob dymuniad da i'r rhai sy'n dechrau ar gyrsiau coleg neu brifysgol, ac i'r rhai sydd wedi newid ysgol hefyd;

Eric a Gaenor Hall ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ar 13 Awst, ac i'r rhai sydd wedi dathlu eu priodas aur yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Cynog a Llinos Dafis, Tom a Beryl Hughes, ac Alan Wynne ac Ann Jones;

Gruffydd Aled ac Eimear Williams ar enedigaeth wyres, Mari, merch i Brid a Price yng Nghaerdydd, ar 18 Medi.

## Tachwedd

*Blaenor y Mis: Marian B Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yn y Garn*

**2** Oedfa'r bore – Parch W J Edwards
Oedfa'r hwyr – Parch Judith Morris

3 Noson Agoriadol Arddangosfa Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf
Neuadd Rhydypennau am 7 o'r gloch

5 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Ymweliad ag Arddangosfa'r Rhyfel Byd Cyntaf
yn Neuadd Rhydypennau, a the i ddilyn yn y festri

**9** Parch Ddr Goronwy Prys Owen

**16** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

21 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Rhys Nicholas' – Dr Rhidian Griffiths

**23** Parch Ddr Terry Edwards

29 Bore Coffi'r Chwiorydd
Festri'r Garn, 10 tan 12 o'r gloch

**30** Parch Christopher Prew

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Dewi G Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T Jenkins / Alan Wynne Jones*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

3 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Naws y Nadolig' gydag Eryl Evans

**7** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa

Oedfa'r hwyr yn y Garn dan arweiniad Miss Beti Griffiths

12 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dathlu'r Nadolig' gyda Trefor ac Eleri

**14** Oedfa'r bore – Dr Rhidian Griffiths

Oedfa Nadolig y Garn am 5 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog a'r aelodau

**21** Oedfa Nadolig yr Ofalaeth
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch

25 Oedfa gymun deuluol ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch
dan arweiniad y Bugail

**28** Parch J E Wynne Davies

31 Gwylnos dan arweiniad y Bugail
yng Nghapel y Garn am 11.30 p.m.

## *Clust i lais yr eglwys*

Roedd sefydlu Pwyllgor Eglwys y Garn yn creu cyfle i lunio strwythur mwy democrataidd i'n crefydd. Yn draddodiadol, bu yna duedd i gymryd yn ganiataol mai cyfrifoldeb deiliaid y Sêt Fawr yn unig oedd gwneud penderfyniadau a llywio dyfodol yr eglwysi. Fel ymddiriedolwyr y capel, mae i'r blaenoriaid gyfrifoldebau sylweddol a phwysig o safbwynt gweinyddu a rheoli bywyd y capel.

Gyda ffurfio'r Pwyllgor Eglwys, roedd yna ddrws newydd yn agor i'r aelodau a'r gynulleidfa i gymryd rhan fwy amlwg ym mywyd y capel. Roedd gwahoddiad agored i'r aelodau yn gyffredinol fod yn rhan o'r pwyllgor, a rhoddwyd y cyfle i bawb o'r aelodau i gynnig syniadau a sylwadau ar gyfer symud ymlaen i'r dyfodol. Cafwyd ymateb ardderchog, gydag awgrymiadau amrywiol o sylwadau, rhai'n ddadlennol a mentrus, ac eraill yn fwy confensiynol a gofalus. Bu'r cyfan yn werthfawr, yn galonogol ac yn adeiladol. Roedd yn adlewyrchu awydd yr aelodau i chwilio am ffordd ymlaen, i ddiogelu ein crefydd i ddyfodol heriol a gwahanol.

Gwnaed ymdrech benodol i holi barn croesdoriad o'r to iau, o dan 50 oed, rhai ohonynt yn parhau â chysylltiad â'r eglwys, ac eraill, nifer o blant yr eglwys, sydd am wahanol resymau heb fod â chysylltiad â chrefydd bellach. Roedd yr ymateb yn ddiddorol iawn – gyda mwy o bwyslais ar weithgaredd i blant a mwy o ddefnydd o adnoddau'r capel ar gyfer y gymuned yn gyffredinol yn uchel ar y rhestr. Bydd o ddiddordeb i ni hefyd i edrych yn ofalus ar rai eglwysi sy'n llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd o deuluoedd ifanc, sy'n rhoi pwyslais mawr ar blant a phobol ifanc ac sy'n defnyddio dulliau arbrofol a thechnoleg i gyfleu neges yr efengyl drwy gyfryngau modern.

Mae'r neges yn eglur. Mae'n rhaid i ni arbrofi a chwilio am ddulliau sy'n cyfathrebu'n llawer mwy effeithiol gyda chenhedlaeth newydd a chymuned sy'n wahanol iawn i'r oes pan oedd bri ar adeiladu capeli yng Nghymru ganrif a hanner yn ôl.

Gwnaed llawer iawn o drafod ac ymchwilio yn ystod blwyddyn gyntaf y Pwyllgor Eglwys, ond dyw'r gwaith ond megis dechrau. Mae'n gynllun tymor hir ac mae'r canlyniad yn y pen draw yn ddibynnol ar ein brwdfrydedd ni a'n penderfyniad ni i sicrhau llwyddiant.

*Wynne Melville Jones*
(Cadeirydd y Pwyllgor Eglwys)

## *Ymweliad Miss Beti Griffiths ag Ysgol Sul y Garn, Gorffennaf 2014 – a Phorthi'r Pum Mil*







# *Diolch i Elina*



Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn ysgoldy Bethlehem, Llandre, nos Sul, 20 Gorffennaf, dan arweiniad y Gweinidog. Roedd hwn yn achlysur arbennig i nodi ymddeoliad Mrs Elina Davies fel gofalwraig Bethlehem, ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth. Cafwyd atgofion a gair o ddiolch i Elina gan Mrs Gaenor Hall a chyflwynodd Alan Wynne Jones rodd iddi ar ran yr eglwys.





*Elina*
*(ar ei hymddeoliad fel gofalwraig Ysgoldy Bethlehem)*

*Ei hallwedd oedd y weddi - i'n tywys*
*I'r Tŷ i addoli,*
*A graen oedd i'n cysegr ni*
*A'i gwên yn rhan o'r gweini.*

*Vernon Jones*

*Gorffennaf 2014*

Darllenodd Vernon Jones englyn a luniodd yn arbennig i Elina a chyflwynwyd copi ohono wedi'i lythrennu'n gain gan Erddyn. Wrth ddiolch i Elina, rydyn ni'n croesawu Annette Williamson, ei holynydd, ac yn dymuno'r gorau iddi hithau yn y gwaith.

## *Newyddion Seion*

Fore Sul, 13 Gorffennaf, daeth blwyddyn yr ysgol Sul i ben gydag ymweliad Marian Beech Hughes ar ran Pwyllgor Ysgolion Sul Gogledd Ceredigion. Daeth pawb ynghyd i ddathlu gwaith y flwyddyn gydag arddangosiadau amrywiol iawn a lliwgar dros ben. Ymwelodd Marian â'r dosbarthiadau yng nghwmni'r plant a'r athrawon fu ar y rota drwy'r flwyddyn, a chafodd ei phlesio gan ymateb deallus y plant i'r gwaith ar y byrddau arddangos. Diolch hefyd i'r rhai fu'n paratoi'r parti blasus. Diolch yn fawr, Marian, am yr adroddiad cadarnhaol a dderbyniwyd.



Diweddwyd tymor llwyddiannus iawn CIC Seion gyda 'Barbeciw a Chwaraeon' nos Iau, 16 Gorffennaf. Dau riant, sef Haydn a Marc, oedd yn gyfrifol am y barbeciw a diolch unwaith eto iddyn nhw am eu parodrwydd i helpu. Diolch yn fawr i Zoe am ei harweiniad a'i brwdfrydedd heintus drwy'r flwyddyn ac i'r plant, yr ieuenctid a'u rhieni am eu cefnogaeth.



Aeth tair o ferched CIC a'r ysgol Sul, sef Swyn, Ema a Naomi, i'r Bala am benwythnos gyda Zoe a mwynhau'r profiad yn fawr iawn gan edrych ymlaen at y cyfle i fynd eto!!

Bydd Cymdeithas y Paith yn dechrau'r flwyddyn newydd yn Neuadd y Paith nos Fercher, 8 Hydref, am 7.30 o'r gloch yng nghwmni Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch, yn cyflwyno 'Alawon Gwerin Cymru'. Bydd Rhaglen y flwyddyn ar werth yn fuan a thaer erfynnir am eich cefnogaeth i'r cyfarfod misol.

Llongyfarchiadau i Miss Malvina Morris, Paith-eos, gyda Miss Norma Jones, Llanfarian, ar eu harddangosfa o flodau amryliw yn portreadu thema'r 'Ifaciwîs' yng Ngŵyl Flodau Eglwys Mihangel Sant, Aberystwyth, ddechrau Awst. Hyfryd oedd gweld y cês bach brown, y lluniau a'r arysgrifau yn rhan o'r arddangosfa. Roedd yr Ŵyl Flodau yn yr eglwys wedi ei chyflwyno gan Gymdeithas Flodau Aberystwyth dan arweiniad John James ac yn ffrwyth dosbarthiadau wythnosol yn ystod y flwyddyn.

## *Ymateb i wahoddiad gan ffrind*

Ar ôl penderfynu un diwrnod bod yn rhaid iddo wneud rhywbeth am ei deimladau negyddol, derbyniodd Emyr Lewis, cyn-gapten tîm rygbi Cymru, awgrym ei gyfaill Garin Jenkins i fynd i'r eglwys yn y Porth.

Er ei fod yn mynd i'r capel yn blentyn yng Nghaerfyrddin, dywedodd Emyr ei fod wedi bod yn rhy brysur i fynd yno ar ôl iddo ddechrau chwarae rygbi.

'O'n i ddim yn disgwyl i ddim byd i ddigwydd ond mor gynted â gerddes i trwy'r drws, digwyddodd rhywbeth ... ac o fanna weles i'r goleuni, fel petai,' meddai Emyr Lewis.

Ychwanegodd: 'Cwympodd popeth yn ei le. Des i allan o'r eglwys yn hollol wahanol i fel es i fewn a doedd dim pwysau ar f'ysgwyddau i mwyach.'

*Emyr Lewis, cyn-gapten tîm rygbi Cymru, yn siarad ar y rhaglen* Bwrw Golwg*, 24 Awst (o wefan Cymru Fyw)*

## *Pererindod Seion*




Prynhawn Sul, 31 Awst, teithiodd aelodau a ffrindiau Seion ar eu Pererindod Flynyddol, y tro hwn i ddilyn troed Owain Glyndŵr, gan gychwyn trwy ymweld â Chanolfan MOMA ym Machynlleth, a rhyfeddu at y datblygiadau a'r arddangosfeydd yno. Croesawyd ni gan Tom a Delyth Rees, a bu Mr a Mrs Lambert yn egluro sut y cafodd y Ganolfan ei sefydlu, 30 mlynedd yn ôl, a'r camau a fu i'w datblygu. Diolch yn fawr am y baned te hefyd cyn gadael! Oddi yno draw i Bennal i safle hynafol Cefn Caer. Cafwyd croeso arbennig gan Mr Elfyn Rowlands, a soniodd am y cloddio a fu yn y gaer Rufeinig a'r blynyddoedd o waith manwl a gofalus i ailddarganfod muriau a lloriau hynafol, gwreiddiol yr hen dŷ canoloesol ynghyd â'r fantell simdde a'r trawstiau derw addurnedig. Roedd yn hynod falch o'r copi oedd ganddo o Lythyr Pennal wedi ei arddangos mewn ffrâm wydr. Rhyfeddod o le yn wir! Does dim syndod ei fod yn un o adeiladau cofrestredig Cadw. Ymlaen wedyn i'r eglwys yn y pentref a chael ei hanes gan y Warden. Gweld copi arall yno o Lythyr Pennal a chyfieithiad Saesneg ohono, y murlun o waith yr artist Aneurin Jones, a John Tudno yn rhoi braslun o hanes Owain Glyndŵr. Munud dawel i fyfyrio dros yr hyn a welwyd yn ystod y prynhawn, darlleniad, gweddi a chanu emyn i gloi cyn ymweld â'r Ardd Gofio i dywysogion Cymru ac enwogion lleol, ac yna croesi'r ffordd am de blasus iawn yng ngwesty Glanrafon.

## Trigain mlynedd o wasanaeth




Yn ystod yr oedfa a gynhaliwyd yn y Garn fore Sul, 20 Gorffennaf, cafwyd cyfle i longyfarch un o gyn-weinidogion yr ofalaeth, sef y Parchedig Elwyn Pryse, ar gyflawni trigain mlynedd yn y weinidogaeth. Cafodd ei ordeinio yn Sasiwn Castell-nedd fis Hydref 1954, a bu'n gweinidogaethu, gyda'i ddiweddar briod, Tegwen, yn ardaloedd Rhosllannerchrugog, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanymddyfri, cyn dychwelyd i sir ei blentyndod, yng ngofalaethau'r Borth a'r Garn.

Cafwyd geiriau priodol o longyfarchion gan ein Gweinidog ac ymateb gan y Parch Elwyn Pryse, cyn i'r gynulleidfa ymuno i ddathlu'r achlysur gyda phaned a chacen yn y festri yn dilyn yr oedfa.

**_Babell, Dôl-y-bont_**

Gyda thristwch mawr y cofnodir marwolaeth dau o aelodau'r eglwys yn ystod y misoedd diwethaf, sef Islwyn Jones, Wennol, y Borth (a fu farw ar 12 Chwefror), a Defi Evans, Dôl Werdd, Dol-y-bont (a fu farw ar 24 Mawrth).

Un o blant y Tymbl, sir Gaerfyrddin, oedd Islwyn a glöwr o ran ei alwedigaeth. Daeth ef a'i briod, Evelyn, i fyw i'r Borth ryw ddeng mlynedd yn ôl gan ddod yn aelodau gwerthfawr a ffyddlon yng Nghapel y Gerlan, ac yn ddiweddarach y Babell, Dol-y-bont. Roedd Islwyn yn gymeriad piwr ac yn ymgomiwr difyr. Soniai'n aml am y dylanwad a gafodd y Parchedig Tom Nefyn Williams, y Tymbl, arno yn fachgen ifanc yn y 1920au, ac yr oedd un dywediad arbennig o eiddo'r gwron y byddai Islwyn yn hoff iawn o'i adrodd: *Telephone to Jesus, O joy divine, I see the current moving down the line.* Cydymdeimlwn yn ddwys ag Evelyn a Delyth, a gweddill y teulu, yn eu hiraeth.

Fel Defi Ty'n Simne yr adwaenid ef gan bawb – er mai yn Nôl Werdd, y drws nesaf i Ty'n Simdde, yn Nôl-y-bont, y treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd. Yn ŵr tawel ac addfwyn ei anian, caredig a chymwynasgar, roedd Defi yn uchel iawn ei barch yn y gymdogaeth. Ef yn wir oedd un o brif bileri'r Achos yn y Babell, wastad yn bresennol yn yr oedfaon ac yn hollol ddibynadwy. Daeth yn Drysorydd yr eglwys yn 1978 ac yn flaenor yn 1989. Roedd yn gefnogol iawn i'w fugail ac afraid yw dweud y gedy bwlch mawr ar ei ôl. Dioddefodd gystudd caled ar ddiwedd ei oes ond er hynny parhaodd yn siriol ei wedd. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â Llinos, â'r plant Rhian ac Ioan a'u teuluoedd, ac â Ken a Joy, ei frawd a'i chwaer yng nghyfraith, yn eu colled a'u hiraeth.

Trysorydd newydd yr eglwys yw:

Mrs Glenys James
Moelcerni
Y Borth,
Ceredigion
SY24 5NS

Rhif ffôn: 01970 828278

## *Cymanfa Cymdeithas Dydd yr Arglwydd*



Pnawn Sul, 29 Mehefin, cafwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Garn, fel rhan o Gymanfa Flynyddol Cymdeithas Dydd yr Arglwydd, i gofio'r cewri Hywel Harris a Thomas Charles. Roedd yn bleser croesawu aelodau'r Gymdeithas yn ogystal â nifer o gapeli eraill y fro i'r oedfa. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Aled Jenkins, Hwlffordd, Llywydd y Gymdeithas, a'r Parchn Wyn a Judith Morris oedd yn gyfrifol am y rhannau dechreuol.

Cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan y Parch Ddr D Ben Rees, Lerpwl, a lwyddodd i grynhoi mewn ffordd ddifyr iawn gymeriadau a chyfraniadau gwerthfawr y ddau wron hyn i'n treftadaeth grefyddol.

Yn dilyn y gwasanaeth, gwahoddwyd pawb i'r festri i fwynhau te oedd wedi'i baratoi gan Chwiorydd y Garn.

## *Gweithredu Cymod*

Wrth ofidio am y brwydro, y lladd a'r dinistrio sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol a mannau eraill o hyd bûm yn meddwl am fudiad ardderchog yn dwyn yr enw uchod a sefydlwyd yn yr Almaen ym 1959. Gan imi fynd a dod i Berlin ddechrau'r 1960au gyda phobl ifanc Capel Newydd, Betws, Rhydaman, dan arweiniad eu gweinidog, T. J. Davies, a Gwenith, ei briod, cefais fod yng nghwmni rhai ifanc fu'n gwasanaethu 'Aktion Sühnezeichen' (www.asf-ev.de/en/start.html).

Roedden nhw am ddatgysylltu eu hunain oddi wrth weithredoedd erchyll eu tadau dan arweiniad Hitler ac yn awyddus i ddangos i'r byd fod ganddyn nhw weledigaeth am fyd rhagorach. Aeth criw o ferched a bechgyn at leygwr amlwg yn yr eglwys, Dr Lothar Kreyssig, i rannu eu gweledigaeth a cheisio arweiniad ganddo, ac yn dilyn sawl cyfarfyddiad i weddïo a thrafod fe ddaeth y mudiad i fodolaeth. Cynghorodd y Dr Lothar nhw i ffurfio grwpiau o ugain: 15 bachgen, 4 merch, ac arweinydd profiadol, gweinidog fel arfer, a mynd i lafurio mewn ysbryd o faddeuant a chymod i'r gwledydd a ddioddefodd yn enbyd dan law milwyr y Drydedd Reich.

O gofio bod eglwys gadeiriol Coventry wedi'i chwalu gan gyrchoedd yr Almaenwyr ym 1940 roedd yn briodol mai yno y cafwyd y gwersyll cyntaf. Os ewch chi i'r gadeirlan newydd fe welwch y Ganolfan Ecwmenaidd Ryngwladol a adeiladwyd fel arwydd o faddeuant a chymod gan y cenhadon hedd o'r Almaen. Wrth ymadael â Coventry dyma ddywedodd Pastor Fritz Keienburg, arweinydd yr Almaenwyr: 'Pan fo rhywrai yn adeiladu muriau i wahanu pobol, oni ddaeth yn adeg adeiladu pontydd i ddwyn pobloedd yn nes at ei gilydd, a hynny'n sylfaen newydd i gyfeillgarwch, dealltwriaeth a heddwch.'

O gofio nad yr Almaenwyr yn unig oedd wedi lladd a dinistrio, teimlai ieuenctid cadeirlan Coventry y dylent hwythau fynd ar genhadaeth hedd arbennig a hynny i Dresden, oedd wedi dioddef yn fwy nag unlle ar derfyn y rhyfel. Cytunir mai gweithred o ddial diangen oedd y bomio gan luoedd Prydain lle lladdwyd 135,000 mewn ychydig oriau, a diolch fod criw Coventry wedi mynd yno i gynorthwyo i adeiladu ysbyty newydd i'r eglwysi. Da dweud fod y cysylltiad rhwng Coventry a Dresden wedi parhau, a hynny'n arwain at ymdrech i weithredu'n gyson i hyrwyddo pob tystiolaeth o faddeuant a chymod.

Rwy'n edrych yn awr ar luniau'r Almaenwyr ifanc fu'n gwasanaethu newn amrywiol wledydd – adeiladu eglwys yn Norwy a chodi canolfannau ieuenctid yn yr Iseldiroedd, gwlad Groeg a Ffrainc, a hynny ar bedwerydd ymweliad y criw â'r wlad. Roedd Klaus, hardd ei gorff a ffefryn y merched, ac un o'm ffrindiau mewn eglwys oedd yn ein croesawu yn Berlin, yn un o'r criw fu'n llafurio yn Ffrainc. Mewn llythyr atgoffodd fi fod gweinidog yn arwain, a bod 15 llanc a 4 o ferched yn y cwmni: 'the girls are only for eating'. Na, nid oedd wedi troi'n ganibal – dim ond dweud mai'r merched oedd yn eu bwydo! Roedden nhw yno am chwe mis, yn gweithio ar safle adeiladu synagog am ddeg awr y dydd, yn 'hau maddeuant', a hynny heb gyflog, dim ond cael ychydig o arian poced.

Un o'r gwledydd mwyaf anodd iddyn nhw gael mynediad iddi oedd Israel oherwydd y driniaeth a dderbyniodd Iddewon gan y Natsïaid – eironig iawn o gofio'u triniaeth greulon o bobol Gasa heddiw. Cafwyd caniatâd ar ôl sawl cynnig a bu'r Almaenwyr yn cynorthwyo i adeiladu Kibbutz. Wrth ymadael wedi chwe mis o gyfeillachu diolchodd Iddewes ifanc iddyn nhw am ddod i dorri twll bychan ym mur casineb a dyheu am y dydd y chwelid y mur yn derfynol.

Mae hynny'n dwyn i gof brofiad cyfoethog mewn oedfa gymun yn Eglwys Golgotha ar ffin dwy ran Berlin ar y pryd, a hynny dair wythnos cyn codi'r mur dieflig ar 13 Awst 1961, mur a godwyd o flaen Golgotha a haneru'r gynulleidfa. Wedi inni benlinio bob yn ddeg wrth yr allor i dderbyn y bara a'r gwin, Cymro ac Almaenwr bob yn ail, meddai Almaenes wrthyf: 'Bu ein tadau yn saethu ei gilydd ar faes y gad ond diolch i Dduw mai cael bod yn chwiorydd a brodyr wrth fwrdd y cymun a wnawn ni – bwrdd maddeuant a chymod.'

Yn ôl wrth gloi at Dr Kreyssig, y cyfarfûm ag ef ym mhencadlys yr eglwys yn Berlin, ac yntau'n diolch am groeso pobol Cymru i'w fab Peter a dreuliodd flwyddyn yng Ngholeg Diwinyddol Aberystwyth yn fuan wedi'r rhyfel. Ei gyfaill gorau yno oedd Islwyn Ffowc Elis ac yn ei gartref yn Nyffryn Ceiriog y bu Peter adeg y gwyliau. Wedi nabod Peter y rhoddodd Islwyn le canolog i Karl (a ymatebodd mewn maddeuant a chymod i rai fu'n greulon wrtho) yn ei ddwy nofel gyntaf am fywyd yn Lleifior. Wedi dychwelyd i'r Almaen bu Peter yn weinidog yn Frankfurt.

*W J Edwards*

## Dathlu trigain mlynedd o briodas



Diolchwn ein dau am y cyfle o gael 'dathliad bach' ar derfyn oedfa'r Sul yng Nghapel y Garn lle'n priodwyd ni drigain mlynedd yn ôl, a hynny am naw o'r gloch y bore ar y 13eg o Awst a hithau'n ddydd Gwener, os cofiaf yn iawn – herio ffawd fel petai!

Diolch i bawb o'r gynulleidfa a fu yn ein 'dathliad bach'.

Gyda chofion cynnes, Gaenor ac Eric

### *Stormydd – Eric Hall*

*Pam mae Duw yn caniatáu i stormydd foddi ein tir, difrodi ein tai a lladd yn ddidrugaredd?*

Ynfytyn! Pam na ddysgu di dy le yn y bydysawd? Oni wyddost am gysondeb y Bod Mawr? Yr un ddeddf sy'n creu'r awel dyner ag sy'n cenhedlu'r stormydd dinistriol. Dy le di yw ceisio cynefin sy'n derbyn yr un ac yn osgoi'r llall. Pwy yn ei iawn bwyll fyddai'n codi atomfa ar ymyl môr sy'n ysglyfaeth i swnamau neu'n adeiladu tŷ ar orlifdir? Cysondeb amlochrog yw nodwedd bydysawd Duw; oni bai am hynny ni fuaset ti'n bodoli!

Ceisia lwybr rhwng cymhwysiad a chymathiad.

### *Swyddogion yr Ofalaeth*

*Cadeirydd*: Heulwen Lewis, Pen-llwyn

*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 7 **Rhagfyr**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com